



Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref SF/KS/0615/15

Yr Athro Laura McAllister  
Cadeirydd  
Chwaraeon Cymru  
Gerddi Sophia  
Caerdydd  
CF11 9SW

9 Mawrth 2015

Laura,

## LLYTHYR CYLCH GWAITH CHWARAEON CYMRU 2015-16

Mae'r llythyr hwn yn nodi fy mhrif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf, a'r canlyniadau rwy'n disgwyl i Chwaraeon Cymru eu cyflawni er mwyn cefnogi ein Rhaglen Lywodraethu, a deddfwriaeth 'Cenedlaethau'r Dyfodol' y disgwylir iddi ddod i rym yn 2015. Cyn gwneud hynny, hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch ichi, y Bwrdd a'r staff am yr ymrwymiad rydych wedi parhau i'w ddangos trwy ddarparu'r cyfleoedd gorau er mwyn i'n pobl ifanc a'n cymunedau gymryd rhan mewn chwaraeon, eu mwynhau a rhagori ynddynt.

Rwy'n ymwybodol mai un o'r prif heriau ar gyfer Chwaraeon Cymru yn y flwyddyn ariannol hon, a'r blynyddoedd a ddaw, fydd rheoli'r gostyngiad yn eich grant cyllid cymorth, a pharhau â'r cynnydd rydych wedi'i gyflawni wrth ichi gefnogi lefelau cyfranogiad uwch, a llwyddiant digynsail ar lwyfan y byd.

Bydd y pwysau cyfredol ar gyllid ar draws y sector yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer awdurdodau lleol, yn ei wneud yn anodd, ond nid yn amhosibl, i ni gynnal yr effaith gadarnhaol mae chwaraeon yn ei chael ar iechyd a lles ein cymunedau. Bydd Chwaraeon Cymru yn chwarae rôl bwysig wrth leihau unrhyw effaith negyddol trwy weithio'n agos gyda phartneriaid awdurdod lleol a phartneriaid eraill. Mae'r ffordd mae chwaraeon yn y gymuned a chyfleusterau chwaraeon yn cael eu darparu a'u rheoli'n esblygu'n gyflym ac mae Chwaraeon Cymru mewn lle delfrydol i lunio'r tirlun er mwyn wynebu'r hinsawdd ariannol anodd, a sefydlu isadeiledd mwy effeithiol, effeithlon a chadarn.

Mae'n hanfodol bod cyrff a noddur yn ceisio adnoddau ychwanegol yn ogystal â'r arian a geir gan Lywodraeth Cymru, a bod rhanddeiliaid yn cael eu hannog a'u cefnogi i gynhyrchu incwm o'r sectorau cyhoeddus a'r sectorau preifat ehangach. Mae'n rhaid ymchwilio i ffyrdd newydd, craffach a dyfeisgar o weithio ac ariannu gweithgareddau, er mwyn i'r sector parhau i ddangos ei berthnasedd a'i bwysigrwydd i fywydau pobl ledled Cymru.

Rwy'n sylweddoli, er mwyn inni gyflawni ein hamcanion tymor hir, y bydd yn rhaid inni fabwysiadu dull mwy hyblyg o fuddsoddi, a chanolbwyntio ar ganlyniadau wrth reoli perfformiad. I'r perwyl hwn, mae'r llythyr eleni yn wahanol i lythyr blaenorol. Ei bwrpas yw nodi'r blaenoriaethau strategol a'r cyllidebau arfaethedig a dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol yn y dyfodol, ond ni fydd yn dweud sut y dylid buddsoddi'r gyllideb. Yn hytrach, rwy'n gofyn ichi ystyried y canlyniadau rwyf wedi'u nodi isod, a rhoi eich cynigion imi – trwy eich Cynllun Busnes drafft – yngl n â sut y byddwch yn bwriadu cyflawni'r canlyniadau, ac yn mesur y cynnydd a'r effaith.

Wrth gynllunio eich dulliau mesur perfformiad ar gyfer yr amcanion canlynol, rwy'n gofyn ichi ddiffinio dangosyddion lefel y boblogaeth, rhaglenni a thargedau. Dylai'r targedau gael eu gyrru gan allbwn yn hytrach na mewnbwn, a byddaf yn disgwyl dangosyddion lefel y boblogaeth sydd rhwng 5 a 10 mlynedd o hyd. Bydd y rhaglenni'n fyrrach a bydd targedau'n flynyddol.

Dylai'r amcanion sydd o'r pwys mwyaf yng Nghynlluniau busnes Chwaraeon Cymru ar gyfer y dyfodol ddangos sut y byddwch yn defnyddio arian cyhoeddus i gyflawni:

### **Cymru gyfoethog**

Gynhyrchu cyfoeth a darparu cyfleoedd gwaith ar gyfer poblogaeth sy'n fedrus ac yn hyddysg, a chefnogi economi arloesol a chynhyrchiol sy'n gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau.

### **Cymru gadarn**

Helpu i greu amgylchedd naturiol bioamrywiol, sydd ag ecosystemau gweithredol sy'n cefnogi gwydnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol, a'r gallu a'r capasiti i newid.

### **Cymru iachach**

Gwneud y gorau o les corfforol ac emosiynol pobl, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig, a sicrhau bod eu dewisiadau ac ymddygiadau'n cael eu hysbysu a'u deall.

### **Cymru fwy cyfartal**

Mynd i'r afael â'r gwahaniaethau rhwng disgwyladau oes iach trwy leihau'r bwlch rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru, a chefnogi pobl ifanc i fod yn uchelgeisiol ac i gyflawni eu llawn botensial, ni waeth beth yw eu cefndir na'u hamgylchiadau.

### **Cymru llawn cymunedau cydlynus**

Cefnogi cymunedau i ddarparu cyfleoedd sy'n rhwymo ac uno, ac sy'n darparu amgylchedd diogel i fyw, gweithio a ffynnu ynddo.

### **Cymru llawn diwylliannau byrlymus ac laith Gymraeg sy'n ffynnu**

Creu poblogaeth o bobl sy'n gorfforol weithgar trwy sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r hyder, a'r mynediad at y cyfleoedd perthnasol, uchel eu hansawdd sy'n bodloni eu hanghenion a'u hannog i fwynhau ffordd weithgar o fyw ar hyd eu hoes.

Wrth ichi ddatblygu'ch cynllun busnes, rwy'n gofyn ichi gadw mewn golwg y cyd-destun defnyddiol iawn ar gyfer y dyfodol mae adroddiad Grŵp Cynghori Chwaraeon Cymru, 'Gweithio Heddiw dros Ddyfodol Gweithgar' yn ei ddarparu i ddatblygu chwaraeon ar gyfer anghenion a gofynion defnyddwyr y dyfodol.

## **CYLLID CYMORTH GRANT**

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi swm o £23.497 miliwn ar ffurf Cymorth Grant i Chwaraeon Cymru am 2015-16. Manylir ar y gyllideb isod.

### **Dyraniad Cyllid Cymorth Grant**

	<b>Cynlluniau 2015-16 (£000oedd)</b>
<b>Cyllid</b>	
Costau Gweithredu	1,327
Gwariant Cyfredol	24,704
Incwm Cyfredol	(3,658)
<b>Cyfalaf</b>	
Gwariant Cyfalaf	345
<b>Cyllidebau Ariannol</b>	<b>22,718</b>
<b>Cyllidebau nad ydynt yn ariannol</b>	
Dibrisiant	779
<b>CYFANSWM Y CYMORTH GRANT</b>	<b>23,497</b>

Rwy'n disgwyl i Chwaraeon Cymru gadw at y ffigurau cyllideb hyn cyn belled ag y bo modd, a hysbysu am unrhyw newidiadau mor fuan â phosibl trwy'r cyfarfodydd monitro chwarterol. Mae talu'r cymorth grant yn parhau i fod yn amodol ar gydymffurfio â chynnwys y Ddogfen Fframwaith. Ni ddylai costau gweithredu Chwaraeon Cymru ar gyfer 2015-16 fod dros £1.327m.

Rwy'n disgwyl gweld y blaenoriaethau strategol a chanlyniadau yn y llythyr hwn wedi'u hadlewyrchu yn eich Cynllun Busnes ar gyfer 2015-16. Rwy'n eich argymhell i drafod drafft cynnar â Changen Polisi Chwaraeon mor fuan â phosibl er mwyn sicrhau cymeradwyaeth derfynol a chwblhau ym mis Ebrill 2015. Bydd perfformiad Chwaraeon Cymru yn parhau i gael ei fesur yn ôl ei gynnydd mewn perthynas â'r blaenoriaethau strategol a'r amcanion yn y llythyr cylch gwaith hwn, a'r canlyniadau, y dangosyddion perfformiad a'r targedau y cytunir arnynt yn ei gynllun busnes.

Bydd y trefniadau ar gyfer monitro cynnydd Chwaraeon Cymru mewn perthynas â'r llythyr cylch gwaith a'ch Cynllun Busnes yn parhau ar ffurf cyfarfodydd rheolaidd ar lefel swyddogol, a'n cyfarfodydd chwarterol. Hoffwn ichi baratoi adroddiad ar eich perfformiad yn 2014-15 cyn ein cyfarfod yn yr haf, ac adroddiad ar eich perfformiad hanner blwyddyn 2015-16 cyn ein cyfarfod yn yr hydref.



### **Ken Skates AC / AM**

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth  
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism